Rhif: WG33228

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Polisi Cynllunio Cymru Drafft: Argraffiad 10

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 18 Mai 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn y bôn, ailwampiwyd Polisi Cynllunio Cymru i themâu polisi ar sail y nodau llesiant a diweddarwyd y polisi lle roedd angen i adlewyrchu strategaethau a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio eich barn ar y newidiadau hyn drwy'r cwestiynau amrywiol a ofynnir yn y ddogfen hon.
Sut i ymateb	Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 18 Mai 2018. Gallwch ymateb gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol. **E-bost:** Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn a'i hanfon i: planconsultations-c@llyw.cymru **Post:** Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn a'i hanfon i'r cyfeiriad isod: Ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio Cymru Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.** Polisi Cynllunio Cymru – y fersiwn gyfredol http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

Manylion Cysylltu

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Stuart Ingram, Nick Lloyd neu Joanne Smith
planconsultations-c@llyw.cymru
0300 025 5040, 0300 025 6802 neu 0300 025 1128

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch chi:

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Beth yw'r prif faterion?

Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen bolisi genedlaethol ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Fe'i defnyddir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lunio polisïau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth bwysig i lunwyr penderfyniadau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae'r Polisi'n cyflwyno polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ailwampiwyd Polisi Cynllunio Cymru i themâu polisi ar sy'n adlewyrchu'r nodau llesiant a diweddarwyd y polisi lle roedd angen i adlewyrchu strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ceisio eich barn ar y newidiadau hyn drwy'r cwestiynau amrywiol a ofynnir yn y ddogfen hon.

Y sefyllfa bresennol?

Nid yw fformat cyfredol Polisi Cynllunio Cymru wedi newid llawer ers ei gyhoeddi gyntaf yn 2002 gyda phob pennod yn trafod un thema/pwnc neu fwy. Mae'r penodau hyn yn amlinellu amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y meysydd hyn; yn egluro'r cyd-destun polisi ac yn disgrifio materion allweddol; yn nodi meysydd y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fynd i'r afael â nhw'n lleol; ac yn amlinellu materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Pam rydym yn cynnig cyflwyno newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru?

Mae datblygu cynaliadwy wedi bod wrth wraidd Polisi Cynllunio Cymru ers ei gyhoeddi gyntaf. Pan oedd Deddf Cynllunio (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cael eu datblygu, ymrwymwyd i ad-drefnu Polisi Cynllunio Cymru fel ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol y deddfau hyn yn gliriach.

Mae'r gofynion deddfwriaethol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gorchymyn y dylid gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol) feddwl am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau, i geisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydlynol o ddarparu datblygiadau cynaliadwy.

Er mwyn sicrhau ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 5 Ffordd o Weithio hefyd i helpu i gyflawni'r nodau gwelliant.

Y system gynllunio yw un o'r prif adnoddau sydd gennym i greu mannau cynaliadwy. Dyma'r prif gyfraniad y gall y system gynllunio ei wneud i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system

gynllunio neu'n gweithredu ynddi fabwysiadu'r cysyniad o greu lleoedd wrth lunio cynlluniau ac mewn penderfyniadau rheoli datblygiadau er mwyn creu mannau cynaliadwy. Dull aml-haen o gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd cyhoeddus yw creu lleoedd. Mae'n manteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial cymuned leol gyda'r bwriad o greu datblygiad sy'n hybu iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Mae'n ganolog felly i amcanion ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cynigion yr Ymgynghoriad

Ailwampiwyd Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd a'r cysyniad o greu lleoedd i ddarparu cyd-destun priodol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ar gynigion datblygu. Rydym wedi diweddaru'r polisi cynllunio mewn meysydd allweddol lle bo angen hefyd i adlewyrchu strategaethau a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru.
Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar strwythur newydd Polisi Cynllunio Cymru, y cysyniad o greu lleoedd a'r gofynion polisi newydd neu ddiwygiedig. Mae'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu'r newidiadau a dylid ei ddarllen gyda Pholisi Cynllunio Cymru drafft - Argraffiad 10.

Wrth ailwampio Polisi Cynllunio Cymru rydym wedi cyflwyno rhai gofynion polisi newydd yn nifer o'r penodau. Gwnaed hyn yn bennaf drwy ddiwygio'r polisi cyfredol a gwneud agweddau eraill yn fwy clir. Mae cwestiynau 1 i 33 yn canolbwyntio ar bolisïau lle gwnaed newidiadau o'r fath.

Y nod oedd adlewyrchu polisi cyfredol a chadw'r datganiadau polisi o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9. Mae cwestiwn 34 yn gofyn yn benodol a yw'r polisi, ac eithrio'r datganiadau polisi diwygiedig a drafodir yng Nghwestiynau 1 i 33, yn adlewyrchiad cywir o'r polisi cyfredol. Mae cwestiwn 35 yn gofyn a oes unrhyw ddatganiadau polisi cyfredol ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 wedi'u hepgor o fersiwn ddrafft Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10.

Nodir y cwestiynau ymgynghori penodol sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn isod.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae'r ffurflen ymateb yn rhoi cyfle i chi wneud sylwadau ychwanegol wrth ateb y cwestiynau hyn. Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad ar wahân. Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol nodwch hynny drwy dicio'r bocs perthnasol ar y ffurflen ymateb.

Strwythur Polisi Cynllunio Cymru – Cysoni Pynciau Polisi Cynllunio gyda Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ailwampiwyd Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd, a ddarparwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, gan barhau i ddarparu cyd-destun priodol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a gwneud cynigion datblygu. Rydym wedi cysoni meysydd pwnc polisi cynllunio gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy edrych ar y disgrifiadau o'r nodau sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf.

Gan ddefnyddio geiriau allweddol o'r disgrifiadau, nodwyd cysylltiadau rhwng y nodau a'r meysydd pwnc polisi. Ar ôl gweld y cysylltiadau hyn roedd hi'n amlwg bod gan lawer o'r meysydd pwnc gysylltiadau â dau neu fwy o'r nodau llesiant. Ar ôl eu nodi, cafodd y rhai ag agweddau cyffredin eu grwpio gyda'i gilydd o dan benawdau thematig fel a ganlyn:

Creu lleoedd	Lleoedd Actif a Chymdeithasol	Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus	Lleoedd Unigryw a Naturiol
Creu Mannau Cynaliadwy Dylunio Da Hybu Lleoedd Iachach Y Gymraeg Gwneud Dewisiadau Gofodol Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig	Tai Canolfannau Manwerthu a Masnachol Cyfleusterau Cymunedol Mannau Hamdden Trafnidiaeth	Datblygu Economaidd a Thwristiaeth Yr Economi Wledig Seilwaith Cludiant Telathrebu Ynni Mwynau Gwastraff	Tirwedd Ardaloedd Arfordirol Yr Amgylchedd Hanesyddol Seilwaith Gwyrdd Bioamrywiaeth Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau Llifogydd Dadrisgio

C1	Ydych chi'n cytuno y dylid clystyru pynciau polisi cynllunio ar sail themâu sy'n dangos eu cysylltiad â'i gilydd a'r 7 nod llesiant? Os na, eglurwch pam.

Cyflwyniad

Mae Pennod 1, y cyflwyniad, yn rhoi trosolwg o beth yw amcanion Polisi Cynllunio Cymru a'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at ddeddfwriaeth allweddol ac yn darparu cyd-destun polisi ar gyfer Cynlluniau Datblygu a Rheoli Datblygiadau.

C2	Ydych chi'n cytuno bod y cyflwyniad yn darparu trosolwg digonol o'r system gynllunio yng Nghymru a chyd-destun priodol? Os na, eglurwch pam.

Creu Lleoedd

Mae Pennod 2 Polisi Cynllunio Cymru, Creu Lleoedd, yn cyflwyno'r cysyniadau sydd eu hangen i sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio neu'n gweithredu ynddi fabwysiadu'r cysyniad o greu lleoedd wrth lunio cynlluniau ac mewn penderfynidau rheoli datblygiadau er mwyn creu Mannau Cynaliadwy.

Mae'r Bennod Creu Lleoedd yn cyflwyno'r 5 Egwyddor Gynllunio Allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar gyfer cynllunio a ddylai fod yn fan cychwyn i bawb sy'n ystyried yr hyn maent yn ceisio ei gyflawni. Mae'r bennod yn egluro hefyd mai Mannau Cynaliadwy yw'r nod i'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru; dyma allbwn y broses gynllunio. Dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai drwy lunio polisïau mewn cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli datblygiadau unigol geisio cyfrannu at greu Mannau Cynaliadwy.

C3	Ydych chi'n cytuno â'r Egwyddorion Cynllunio? Os na, eglurwch pam.

C4	Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o beth yw 'Man Cynaliadwy'? Os na, eglurwch pam.

Rydym wedi datblygu cyfres o Ganlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol lefel uchel, i ddwyn ysbryd creu lleoedd ynghyd mewn un lle cryno ac i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'n cyfrannu at greu Mannau Cynaliadwy cyn belled ag y bo'n bosibl.

Nid disodli'r ystyriaethau manwl sy'n digwydd yn ystod pob cais cynllunio neu broses ddyrannu safle yw pwrpas y polisi creu lleoedd, ond yn hytrach mae'n cynnwys y canlyniadau lefel uchel y mae polisi cynllunio yn ceisio eu cyflawni a'u hystyried.

C5	Ydych chi'n cytuno gyda'r canlyniadau cynllunio lefel uchel a nodir gan Pobl a Lleoedd: Y Canlyniadau Creu Lleoedd Cenedlaethol? Os na, eglurwch pam.

Creu Lleoedd Strategol

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod bod tir yn adnodd y mae pen draw iddo ac, yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylid ei ddatblygu mewn ffordd effeithlon. Rydym felly wedi ceisio gwneud y dull rydym yn ei ffafrio ar gyfer ffurfio strategaethau cynlluniau datblygu yn fwy eglur drwy amlinellu trefn chwilio ar gyfer datblygiadau newydd.

C6	Ydych chi'n cytuno gyda'r drefn chwilio a amlinellir ar gyfer ffurfio strategaethau cynllun datblygu? Os na, eglurwch pam.

Anheddiadau Newydd

Rydym wedi cyflwyno polisi newydd ar hyrwyddo aneddiadau newydd neu estyniadau trefol mawr, sy'n cynnwys 1,000 neu fwy o aneddiadau. Yn sgil eu natur a'u harwyddocâd strategol, sy'n mynd y tu hwnt i un ffin awdurdod lleol, dim ond fel

rhan o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Cynllun Datblygu Strategol neu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

C7	Ydych chi'n cytuno gyda'n dull polisi diwygiedig ar gyfer hyrwyddo aneddiadau newydd ac estyniadau trefol. Os na, eglurwch pam.

Ailddefnyddio Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol

Rydym hefyd wedi edrych ar ein polisi ar ddefnyddio safleoedd tir llwyd ac wedi'i gryfhau i geisio sicrhau bod yr holl opsiynau i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cael eu hystyried cyn y defnyddir safleoedd maes glas. Y flaenoriaeth bennaf nawr fydd ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn gyntaf. Yn unol â chyngor yn ddiweddarach ym Mholisi Cynllunio Cymru, cynghorir awdurdodau cynllunio i barhau i fabwysiadu agwedd dadrisgio at safleoedd i'w galluogi i ddod ymlaen, gan ystyried y gallu i gyflawni mewn termau economaidd.

C8	Ydych chi'n cytuno gyda'n dull polisi diwygiedig sy'n ffafrio ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol? Os na, eglurwch pam.

Ffurflen Rheoli Anheddiadau – Lleiniau Glas a Lletemau Glas

Rydym wedi egluro'r gwahaniaeth rhwng Lleiniau Glas a Lletemau Glas. Er y dylai cynigion ar gyfer lleiniau glas a lletemau glas fod wedi'u seilio'n gadarn ar asesiad ffurfiol o'u cyfraniad at ffurf trefol a lleoliad datblygiad newydd a gallant fod mewn sawl ffurf wahanol. Y gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt yw y dylid gwarchod tir o fewn Llain Glas am fwy o amser na chyfnod perthnasol y cynllun datblygu cyfredol, tra bod angen adolygu polisïau lletemau glas fel rhan o'r broses adolygu cynlluniau datblygu. Mae lleiniau glas yn strategol eu natur hefyd ac ni ddylid eu cynnig onibai eu bod yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd neu Gynllun Datblygu Unigol.

C9	Ydych chi'n cytuno gyda'n dull polisi diwygiedig ar gyfer dynodi Lleiniau Gwyrdd a Lletemau Gwyrdd? Os na, eglurwch pam.

<u>Lleoedd Actif a Chymdeithasol</u>

Mae'r bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol yn sôn am y cysylltiadau rhwng pynciau polisi'r bennod hon â'r canlyniadau creu lleoedd. Mae hefyd yn creu cysylltiadau gyda 7 Nod Llesiant a 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd. Tynnir sylw hefyd at dueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn, yn ogystal â sut mae'r pynciau polisi gwahanol mewn thema'n gallu cydweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni Mannau Cynaliadwy.

C10	Ydych chi'n cytuno gyda'r materion a'r rhyng-gysylltiadau a nodir yn y cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol? Pa faterion a chysylltiadau eraill y gellid eu nodi i gefnogi'r thema hon?

Tai

Rhoddwyd pwyslais ar hyfywedd economaidd fel elfen ganolog i asesiadau o allu i gyflawni gofynion tai cynllun datblygu o ddechrau'r broses o baratoi'r cynllun. Caiff hyn ei ategu gan rôl ddatblygedig ar gyfer llwybrau tai, a fyddai'n darparu sail ar gyfer cyflenwi tir ar gyfer tai nes bod angen cynnal astudiaeth o'r tir sydd ar gael ar gyfer tai i lywio Adroddiad Monitro Blynyddol cynllun datblygu cyntaf yr awdurdod.

C11	Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig i hyfywedd gael ei asesu ar ddechrau'r broses o baratoi'r cynllun ac i hyn gael ei ategu gan rôl ddatblygedig i lwybrau tai? Os na, eglurwch pam.

Wrth ddyrannu tir ar gyfer tai yn eu cynlluniau datblygu anogir awdurdodau lleol i gynnwys lwfans ychwanegol i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd pan nad yw safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y bwriadwyd er mwyn darparu posibilrwydd realistig o fodloni'r gofyniad tai a gynlluniwyd.

C12	Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig cynnwys lwfans hyblygrwydd fel gofyniad polisi er mwyn ei gwneud hi'n haws i fodloni gofynion tai a gynlluniwyd? Os na, eglurwch pam.

Er mwyn darparu'r tai newydd mae angen amrywio'r dull o gyflawni drwy annog pob math o adeiladwr tai i gyfrannu, yn cynnwys y sector hunan-adeiladu ac adeiladu ar gyfer cwsmer penodol. I hwyluso hyn, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu safleoedd o feintiau gwahanol wrth ddyrannu safleoedd yn eu cynlluniau datblygu ac ystyried y cyfleoedd ar gyfer opsiynau hunan-adeiladu ar gyfer cwsmer penodol, yn cynnwys defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol.

C13	Ydych chi'n cytuno, er mwyn gallu darparu'r tai newydd sydd eu hangen ar Gymru mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ddyrannu safleoedd o feintiau gwahanol, yn cynnwys safleoedd bach, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer pob math o adeiladwr tai i gyfrannu at ddarparu'r tai arfaethedig? Os na, eglurwch pam.

C14	Er mwyn sicrhau bod safleoedd bach yn cael eu dyrannu, a ddylid cynnwys gofyniad i ganran benodol (e.e. 20%) o safleoedd fod yn rhai bach? Os na, eglurwch pam.

C15	Ydych chi'n cytuno y gall y sector hunan-adeiladu ac adeiladu ar gyfer cwsmer penodol wneud cyfraniad pwysig at ddarparu tai, yn enwedig pan mae hynny'n gysylltiedig â'r defnydd o Orchmynion Datblygu Lleol a chodau dylunio? Os na, eglurwch pam.

Er mwyn gallu darparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau tai'r farchnad agored mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr drafod mewn ffordd agored a thryloyw. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar hyn drwy gyfeirio at yr angen i drafodaethau o'r fath fod ar sail 'hawdd i'w deall'.

C16	Ydych chi'n cytuno y byddai trafod ar sail 'hawdd i'w deall' yn helpu i wella ymddiriedaeth rhwng y partïon a hwyluso'r broses o ddarparu tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy. Os na, eglurwch pam.

Cyfleusterau Cymunedol

Cyflwynwyd newidiadau i bwysleisio'r angen am ddarpariaeth briodol o gyfleusterau cymunedol. Dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu dull strategol, tymor hir o ddarparu cyfleusterau cymunedol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Wrth ystyried cynigion datblygu dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cymunedau a sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn parhau i fynd i'r afael â gofynion trigolion yr ardal.

C17	Ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau i bwysleisio'r angen i ddarparu cyfleusterau cymunedol priodol wrth ystyried cynnig datblygu? Os na, eglurwch pam.

Trafnidiaeth

Diweddarwyd y polisi trafnidiaeth i roi mwy o bwyslais ar yr hierarchaeth drafnidiaeth, sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a seiclo, yna trafnidiaeth gyhoeddus, yna cerbydau modur preifat yn olaf. Dylid lleoli a chynllunio datblygiad newydd yn unol â'r hierarchaeth hon.

C18	Ydych chi'n cytuno y bydd rhoi mwy o bwyslais ar yr hierarchaeth drafnidiaeth yn gwella lleoliad a chynllun datblygiadau newydd? Os na, eglurwch pam.

Cyflwynwyd rhagor o newidiadau i gryfhau'r amcan polisi o leihau teithio gan ddefnyddio cerbydau preifat a chynyddu cerdded, seiclo a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r polisi ar deithio llesol wedi'i gryfhau a darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi'u hintegreiddio ymhellach yn y system gynllunio. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar greu strydoedd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n ystyried pobl yn bennaf. Mae'r polisi diwygiedig yn nodi'n glir bod disgwyl i gynllun strydoedd newydd neu ddatblygedig adlewyrchu egwyddorion y Llawlyfr Strydoedd.

C19	Ydych chi'n cytuno y bydd y polisi'n galluogi'r system gynllunio i hwyluso teithio llesol a darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? Os na, eglurwch pam.

C20	Ydych chi'n cytuno y bydd y polisi'n galluogi i strydoedd wedi'u cynllunio'n dda gael eu creu? Os na, eglurwch pam.

Cafodd polisi newydd ei gyflwyno i annog y defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV). Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i isafswm o 10% o fannau parcio ceir di-breswyl fod â phwyntiau gwefru ULEV. Y bwriad yw i hyn gael ei ddefnyddio'n hyblyg i sicrhau bod lefel, lleoliad a math y ddarpariaeth wefru yn briodol ar gyfer y cynllun ac amgylchiadau lleol.

Q21	Ydych chi yn cytuno â'r gofyniad i ddatblygiad preswyl gael isafswm o 10% o fannau parcio ceir gyda phwyntiau gwefru ULEV? Os nad ydych, eglurwch pam.

Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus

Mae'r cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng pynciau polisi'r bennod hon â'r canlyniadau creu lleoedd. Mae hefyd yn creu cysylltiadau gyda 7 Nod Llesiant a 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Tynnir sylw hefyd dueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn, yn ogystal â sut y gall y gwahanol bynciau polisi yn y thema yn gallu cydweithio er mwyn cyflawni Mannau Cynaliadwy.

C22	Ydych chi'n cytuno gyda'r materion a'r rhyng-gysylltiadau y tynnir sylw atynt yn y cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus? Pa faterion a chysylltiadau eraill y gellid eu nodi i gefnogi'r thema hon?

Telathrebu

Diweddarwyd adran telathrebu symudol Polisi Cynllunio Cymru i gydnabod manteision economaidd pwysig cael rhwydweithiau cyfathrebu da, dibynadwy a

chyflym. Caiff awdurdodau cynllunio a gweithredwyr rhwydweithiau eu hannog i gydweithio i nodi ardaloedd â chysylltedd cyfyngedig a ffyrdd lle gall y system gynllunio helpu i fynd i'r afael â hyn. Rydym wedi ceisio egluro'r sefyllfa o ran datblygiadau ffonau symudol ac iechyd hefyd.

C23	Ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau i adran telathrebu fersiwn ddrafft Polisi Cynllunio Cymru? Os na, pa newidiadau y gellid eu gwneud i wneud y sefyllfa'n fwy eglur? Os na, eglurwch pam.

Seilwaith Cludiant

Mae seilwaith cludiant wedi'i gynnwys gyda mathau eraill o seilwaith yn y bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Mae'r adran hon yn cynnwys polisi cynllunio ar seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, y rhwydwaith ffyrdd strategol, porthladdoedd, meysydd awyr a chludo nwyddau. Mae'r polisi'n ceisio sicrhau bod y system gynllunio'n hwyluso'r broses o ddarparu, datgarboneiddio a gwella'r seilwaith cludiant, mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, ac yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r polisi cynllunio trafnidiaeth cyffredinol, sydd i'w weld yn y bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol.

C24	Ydych chi'n cytuno gyda lleoli'r adran ar seilwaith cludiant yn y bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus? Os na, eglurwch pam.

Ynni

Ar ôl pennu targedau ynni adnewyddadwy i Gymru, rydym wedi cyflwyno'r gofyniad mewn polisi i awdurdodau lleol bennu targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn eu cynlluniau datblygu. Rydym hefyd yn gofyn yn benodol i awdurdodau cynllunio nodi ardaloedd gofodol yn eu cynlluniau datblygu lle y bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy'n cael eu caniatáu.

C25	Ydych chi'n cytuno gyda'r gofynion newydd ar gyfer cynllunio ynni adnewyddadwy lleol fel y maent yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam.

Rydym wedi cynnwys yr holl bolisïau ynni ac adeiladau cynaliadwy yn yr un adran hefyd i bwysleisio natur integredig y materion hyn. Dangosir hyn drwy'r defnydd o hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio sy'n egluro'r dull rydym yn ei ffafrio ar gyfer cynllunio ynni i lywio dewisiadau cysylltiedig ag ynni yn y system gynllunio.

C26	Ydych chi'n cytuno gyda'r defnydd o'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio fel sydd yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam.

Mwynau Ynni

Mae mwynau ynni wedi'u cynnwys yn yr adran ynni a'u tynnu o'r adran mwynau, er bydd polisïau mwynau yn parhau i fod yn gymwys. Mae cloddio am lo ac olew a nwy ar y tir at ddibenion cynhyrchu ynni wedi'u gosod ar waelod yr hierarchaeth ynni cynllunio sy'n adlewyrchu eu safle fel y ffynhonnell leiaf dymunol o danwydd ar gyfer cynhyrchu ynni.

Newidiwyd cynnwys y polisi i gyd-fynd â chynlluniau'r DU gyfan i gael gwared yn raddol ar gynhyrchu gan ddefnyddio glo a dyheadau blaengar Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac i osgoi cael eu gorfodi i gloddio am danwydd ffosil yn y dyfodol. Mae'r polisi cynllunio ar lo wedi'i newid i gyfyngu ar gloddio a dywed na ddylid rhoi caniatâd cynllunio, tra bod polisi yn ymwneud ag olew a nwy ar y tir yn gosod trothwy uchel ar gyfer unrhyw gais cynllunio

C27	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer glo ac olew a nwy ar y tir yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam. Ystyriwch bob ffynhonnell ar wahân.

Economi Gylchol

Cyflwynwyd hyrwyddo'r economi gylchol i annog a hyrwyddo gweithredu cadarnhaol ac ystyriaeth gynnar i'r dewis o ddeunyddiau a'r defnydd o adnoddau yn y broses gynllunio ac i ddarparu mwy o sbardun ar gyfer gweithredu yn uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff. Gall gwneud y defnydd gorau o adnoddau arwain at well lleoliad, dulliau gwell o drin safle a dewisiadau dylunio gwell. Ar lefel strategol mae angen cefnogi'r seilwaith sydd ei angen i symud tuag at economi gylchol.

C28	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd i hyrwyddo'r economi gylchol a'i gysylltiad â dulliau cynllunio gwastraff a mwynau traddodiadol fel sydd yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam.

<u>Lleoedd Unigryw a Naturiol</u>

Mae'r cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Unigryw a Naturiol yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng pynciau polisi'r bennod hon â'r canlyniadau creu lleoedd. Mae'n creu cysylltiadau gyda 7 Nod Llesiant a 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd. Mae tueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn yn cael eu nodi hefyd yn ogystal â sut y gall gwahanol bynciau polisi'r thema gydweithio i greu Mannau Cynaliadwy.

Mae'r thema hon yn darparu'r cyd-destun ar gyfer deall, cydnabod ac adnabod nodweddion a phriodoleddau sy'n elfennau annatod o le, sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i leoedd, a ddylai gael eu gwarchod oherwydd eu harddwch a'u gwerth fel rhan o'r dreftadaeth naturiol ac adeiledig ac y dylid eu hystyried yn nhermau eu cyfraniad tuag at iechyd a llesiant pobl a'r amgylchedd.

C29	Ydych chi'n cytuno gyda'r materion a'r rhyng-gysylltiadau y tynnir sylw atynt yn y cyflwyniad i'r bennodd Lleoedd Unigryw a Naturiol? Pa faterion a chysylltiadau eraill y gellid eu nodi i gefnogi'r thema hon?

Tirwedd a Bioamrywiaeth

Mae byrdwn cyffredinol y polisi drafft yn parhau'n debyg i fersiwn gyfredol Polisi Cynllunio Cymru gyda'r ffocws yn parhau ar warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae'r gofynion deddfwriaethol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd) wedi'u cryfhau, eu hehangu a'u hailgyflwyno. Mae'r drafft yn cynnwys cyfeiriad at gadernid ecosystemau bellach a manteision ehangach mabwysiadu dull o'r fath a seilwaith gwyrdd.

Mae newidiadau penodol allweddol yn cynnwys manylion ychwanegol ar dirweddau lleol, gwybodaeth am geoamrywiaeth a thirwedd, amlinellu dull cynllunio ar gyfer gofynion dyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd a gwella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau, yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar 'fantais net' a dim colled sylweddol o ran bioamrywiaeth sylweddol o TAN 5, a rhoi cydnabyddiaeth amlwg i seilwaith gwyrdd a'r gofyniad i baratoi asesiadau.

C30	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â thirwedd, bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd? Os na, eglurwch pam.

Nodweddion Arfordirol Unigryw

Mae cynsail cyffredinol y polisi cyfredol wedi aros yr un fath i raddau helaeth. Mae yna rai elfennau ychwanegol yn cynnwys gwahanu nodweddion unigryw ardaloedd arfordirol a'u hegluro'n fanylach, mwy o bwyslais ar rôl Cynllun Rheoli Traethlin ac ymatebion cynllunio priodol ac ystyriaeth i rôl yr arfordir a sut i'w reoli gan gydnabod ei fanteision ehangach a'i lesiant.

C31	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas ag ardaloedd arfordirol unigryw? Os na, eglurwch pam.

Ansawdd Aer a Seinwedd (Sŵn)

Mae prif egwyddorion fersiwn gyfredol Polisi Cynllunio Cymru yn parhau, ond maent wedi'u datblygu a'u hehangu fel rhan o fframwaith mwy cadarn ar gyfer mynd i'r afael

ag ansawdd aer a sŵn yn seiliedig ar ddulliau gweithio tymor hir, atal ac integredig a'u cyfraniad at nodau llesiant. Cyflwynwyd y cysyniad o seinwedd i gydnabod cyfraniad cadarnhaol sŵn fel rhan o'r profiad o le yn hytrach na dim ond cydnabod sŵn fel ffynhonnell llygredd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bellach nad oes terfynau diogel o ran llygredd aer, bod y system gynllunio'n gallu bod yn ffordd gadarnhaol o leihau lefelau llygredd cyfartalog, y dylid mabwysiadu dulliau tymor hir, bod llygredd sŵn ac aer yn deillio o'r un ffynonellau'n aml ac y gellid mynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd ac fe gyflwynwyd egwyddor cyfrwng newid yn benodol, yn enwedig cyn belled bod yr egwyddor hon yn rhan annatod o'r gwaith o fynd i'r afael â pha mor gydnaws yw gwahanol fathau o ddefnydd a gweithgareddau.

C32	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas ag ansawdd aer a seinwedd? Os na, eglurwch pam.

Gwasanaethau Dŵr

Mae'r rhyngweithiadau cymhleth rhwng datblygiad a gwasanaethau dŵr yn cael eu hegluro'n llawnach drwy gynnwys mwy o sylw i'r ffaith na ddylid gwaredu dŵr wyneb drwy garthffosydd gyfunol, drwy roi mwy o bwyslais ar rôl dŵr a'r dulliau o'i reoli a'r cysylltiadau â manteision ehangach a llesiant a rhoi mwy o bwyslais ar Systemau Draenio Cynaliadwy.

C33	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â gwasanaethau dŵr sydd yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam.

Rheoli risgiau amgylcheddol

Mae risgiau amgylcheddol, fel halogiad ac ansefydlogrwydd tir, wedi'u cynnwys yng nghyd-destun 'dadrisgio'. Gellir deall dadrisgio fel datgloi potensial lleoedd drwy reoli risg a nodi cyfleoedd. Mae'n dibynnu ar gael mwy o dryloywder am risg a chyfle, hyrwyddo dulliau lle mae cydweithio'n digwydd rhwng asiantaethau a gellid ailddefnyddio, ailgylchu a rhannu gwybodaeth, tystiolaeth ac asesiadau.

C34	Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd i fynd i'r afael â risgiau amgylcheddol a dull ar sail dadrisgio? Os na, eglurwch pam.

<u>Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 – Datganiadau Polisi</u>

Wrth ailwampio Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer Argraffiad 10 y nod oedd cadw'r rhan fwyaf o'r polisi sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9.

C35	Ydych chi'n cytuno fod y datganiadau polisi eraill heblaw'r rhai y cyfeirir atynt yng Nghwestiynau 1 i 33 uchod yn adlewyrchu'r polisi cyfredol yn gywir? Os na, eglurwch pam.

C36	Os yna unrhyw ddatganiadau polisi cyfredol ym Mholisi Cynllunio Cymru 9 nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Argraffiad ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 ac y dylid eu cadw yn eich barn chi? Os oes, nodwch pa rai.